**Lesley Griffiths AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig**
**Cabinet Secretary for Environment and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-753
Ein cyf/Our ref LG/00641/17

Mike Hedges AC
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau

government.committee.business@wales.gsi.gov.uk

23 Ebrill 2017

Annwyl Mike

Diolch am eich llythyr dyddiedig 27 Mawrth ynghylch y ddeiseb a gafwyd gan Alexander Williams ynghylch cryfhau y fframwaith deddfwriaethol a rheoleiddiol sy'n gysylltiedig â chyfleusterau prosesu pren gwastraff.

Byddaf yn ymateb i bob un o'r pwyntiau a wnaethpwyd yn y ddeiseb isod:-

1) *Rhoi cyfarwyddyd i Cyfoeth Naturiol Cymru ddirymu ar unwaith drwydded amgylcheddol South Wales Wood Recycling Ltd yn dilyn tân ar eu safle yn Heol-y-Cyw, tan cwblhau'r archwiliad i achos y tân, i sicrhau bod y safle'n cydymffurfio'n llawn â'i reolau gweithredu cyn cael yr hawl i ail-ddechrau gweithio.*

Mae archwiliad y Gwasanaeth Tân ac Achub i achos y tân yn Heol-y-Cyw wedi ei gwblhau, ni ddaethpwyd i unrhyw gasgliad felly nid oedd modd dod o hyd i achos y tân. O ran dirymu'r drwydded, golygai hyn y byddai'r drwydded yn dod i ben ac na fyddai modd ail-ddechrau gweithio ar y safle. Byddai'n rhaid i'r cwmni wneud cais am drwydded newydd os oeddent yn dymuno ail-ddechrau gweithio.

Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r corff sy'n gwneud y penderfyniadau rheoleiddiol ar safleoedd gwastraff a hwy sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu ar y camau rheoleiddiol priodol ar y safle. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystyried camau rheoleiddiol yn unol â'u Polisi Gorfodi ac Erlyn a'r Cod Rheoleiddwyr. Mae angen ystyried yr holl ffeithiau a'r goblygiadau cyn dirymu eu trwydded gan gynnwys canlyniadau unrhyw gamau ar allu cwmni i weithredu, ac a allai dirymu trwydded arwain at ganlyniad gwaeth megis y cwmni yn cael ei ddiddymu a'r safle a'r gwastraff yn cael ei adael. Wrth benderfynu ar pa gamau i'w cymeryd bydd y rheoleiddiwr yn asesu'r risg ar y safle ac efallai yn gweithio gyda'r cwmni i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r rheolau gan adael iddynt barhau i weithredu.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae gan Weinidogion Cymru yr hawl i roi cyfarwyddyd i'r rheoleiddiwr ar gynnal ei swyddogaethau. Pwrpas yr hawl hwn i lunio cyfarwyddyd yw galluogi Gweinidogion Cymru i gymeryd camau penodol ble y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod yn briodol, o dan yr amgylchiadau, i beidio â gadael y penderfyniad i Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r problemau a gododd yn South Wales Wood Recycling Ltd (SWWR) yn benderfyniadau rheoleiddiol/gweithredol. Maent o bwysigrwydd lleol yn hytrach na rhanbarthol neu genedlaethol ac rwy'n hyderus y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru, fel y rheoleiddiwr, yn cymeryd y camau angenrheidiol i ddiogelu'r amgylchedd a chymunedau lleol. Nid wyf felly'n ei ystyried yn angenrheidiol i roi cyfarwyddyd i Cyfoeth Naturiol Cymru ddirymu'r drwydded.

2) Cyfarwyddo Cyfoeth Naturiol Cymru, awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus perthnasol eraill i weithio gyda'i gilydd i ddefnyddio eu pwerau a'u dyletswyddau presennol i gymryd camau gorfodi effeithiol ac effeithlon o fewn y diwydiant ailgylchu.

Mae nifer o gamau wedi'u cymeryd ers y tân yn SWWR yn Heol-y-Cyw y llynedd. Ym mis Ionawr 2017 cafwyd hysbysiad gan Cyfoeth Naturiol Cymru i SWWR symud pob deunydd gwastraff oedd wedi'i ddifrodi yn y tân oedd wedi ei adael y tu allan i'r ardal a ganiateir ar y safle. Mae'n rhaid cydymffurfio â'r hysbysiad hwn erbyn 30 Mawrth 2018. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau i asesu a oedd y dull o reoli ar y safle wedi cyfrannu at y tân ac mae'n edrych ar unrhyw achosion o dorri amodau'r drwydded. Maent yn edrych eto ar y dystiolaeth ac yn ystyried a yw'n briodol i gymeryd camau pellach.

*2) Cryfhau'r fframwaith deddfwriaethol a rheoleiddiol lle bo angen er mwyn galluogi cyrff cyhoeddus perthnasol i gymryd camau gorfodi mwy effeithiol ac effeithlon (gan gynnwys monitro), a'u galluogi i erlyn a gosod cosbau ariannol cryfach ar gwmnïau a chyfarwyddwyr cwmnïau unigol sy'n torri eu rheolaethau gweithredol fel amodau cynllunio neu delerau eu trwyddedau gweithredol a thrwyddedau amgylcheddol;*

Yn fy ymateb i'r drafodaeth fer ar 5 Hydref 2016 ar y tân yn SWWR, ryw'n pennu nifer o gamau gweithredu yr wyf am eu cymeryd i gryfhau pwerau Cyfoeth Naturiol Cymru i gymeryd camau mwy effeithiol ar droseddau'n ymwneud â gwastraff. Ym mis Hydref 2015, cyflwynwyd pwerau gennym i'w wneud yn haws i Cyfoeth Naturiol Cymru atal trwyddedau, dileu y perygl o lygredd ac i drefnu gwaharddeb i orfodi cwmnïau i gydymffurfio â hysbysiadau gorfodi.

Rwy'n bwriadu cyflwyno rhagor o bwerau newydd eleni fydd yn galluogi Cyfoeth Naturiol Cymru, ble y bo'n briodol, i rwystro mynediad i safle i osgoi rhagor o wastraff rhag dod i mewn ac i wneud y rhai sy'n cadw neu yn caniatáu i wastraff gael ei gadw yn anghyfreithlon ar eu tir yn gyfrifol am ei symud. Byddaf hefyd yn ymgynghori yn ystod yr Haf ar y cynigion i gryfhau y gofynion sydd ar gwmni er mwyn bod yn gymwys i gael trwydded ac wrth iddynt gynnal eu gwaith. Bydd hyn yn rhoi mwy o hawl i Cyfoeth Naturiol Cymru wrthod ceisiadau am drwyddedau os bydd cwmni yn methu â dangos eu bod yn gymwys yn ariannol ac yn dechnegol. Bydd yr ail gynnig yn edrych ar gam-ddefnyddio'r drefn o eithrio gwastraff sy'n caniatáu cynnal gweithgareddau adfer heb fod angen trwydded. Mae'r cynigion ym Mil Gwarediadau Tirlenwi Llywodraeth Cymru yn ei wneud yn ofynnol i'r rhai hynny sy'n cael eu herlyn am waredu gwastraff yn anghyfreithlon dalu treth ar y gwastraff fydd hefyd yn atal rhagor o bobl rhag gadael gwastraff yn anghyfreithlon.

O ran yr awgrym i godi cosbau ariannol uwch, mae'r prif droseddau sy'n gysylltiedig â chwmnïau gwastraff eisoes yn arwain at ddirwy heb uchafswm. Nid yw'n bosib felly i gynyddu'r cosbau ariannol hyn. Hefyd, er tegwch mae gan y Llysoedd yr hawl i wneud eu penderfyniad eu hunain o ran dedfrydu am droseddau. Cafodd canllawiau y Cyngor Dedfrydu eu diwygio yn 2014 i helpu y llysoedd troseddol wrth ddedfrydu am droseddau amgylcheddol. Gan nad yw'r System Farnwrol wedi ei datganoli mae rhwystrau cyfansoddiadol, cyfreithiol ac ymarferol sylweddol i gyfyngu ar yr hawl hwn.

4) Adolygu'r ddeddfwriaeth bresennol i ganiatáu i'r cyhoedd, Gwasanaethau Tân ac Achub a chyrff cyhoeddus adennill y costau o ymdrin ag achosion, fel y tân diweddar yn South Wales Wood Recycling Ltd, os canfyddir yr achoswyd y tân o ganlyniad i esgeulustod y cwmni, gweithred droseddol neu achosion eraill o dorri rheoliadau, amodau neu ganiatadau gan y cwmni..

Mae gan y gwasanaeth tân bwerau eisoes o dan Orchymyn Diogelwch Tân 2005 i ddelio â busnesau sy'n esgeulus o'u cyfrifoldebau diogelwch tân. Gallai'r rhain gynnwys erlyn yr achosion mwyaf difrifol. Mae Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 hefyd yn caniatáu i'r Awdurdodau Tân ac Achub godi tâl am rai gwasanaethau, fodd bynnag mae'r Ddeddf yn atal awdurdodau rhag codi tâl am ymladd tân (ar wahân i amgylchiadau penodol megis ymladd tanau ar fwrdd llong ar y môr neu osodiadau ar y glannau). Byddai cyflwyno tâl pan fo achos y tân o ganlyniad i esgeulustod yn newid mawr, mae nifer o danau'n dechrau o ganlyniad i esgeulustod, er enghraifft, gadael offer coginio heb oruchwyliaeth, gor-lwytho cylchoedd trydanol neu ysmygu yn y gwely. Pe byddai cwmnïau'n gorfod talu, ni fyddai rheswm i beidio â chodi tâl ar ddeiliaid tai hefyd a allai godi cwestiynau ynghylch y diffiniad o'r gwasanaeth tân. Mae defnyddio'r pwerau presennol yn well na chodi tâl am ymladd tanau ac nid yw'n golygu bod yn rhaid i dân ddigwydd.

5) Adolygu'r rheolau diogelu'r amgylchedd a rhoi cyfarwyddyd i awdurdodau lleol i sicrhau nad oes unrhyw fath o gyfleusterau prosesu pren gwastraff yn cael eu lleoli'n agos at safleoedd preswyl, safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig na safleoedd o bwysigrwydd i gadwraeth natur

Mae'r canllawiau i awdurdodau lleol wedi eu pennu yn Nodyn Cyngor Technegol Polisi Cynllunio Cymru (TAN21) ac yn Nodyn Technegol 5. Mae'r dogfennau hyn yn pennu polisïau cynllunio cenedlaethol Cymru yn gysylltiedig â gwastraff a diogelu yr amgylchedd naturiol ac adeiledig, sydd, gyda'r canllaw technegol ar wastraff wedi eu paratoi i sicrhau bod cynllunwyr yn deall mwy am dechnolegau gwastraff.

Mae'r polisi cynllunio cenedlaethol yn glir ynghylch swyddogaeth bwysig system cynllunio y defnydd o dir er mwyn hwyluso'r broses o reoli gwastraff yn gynaliadwy. Mae'r polisi yn rhoi fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau, a chydnabod manteision cymdeithasol ac economaidd rheoli gwastraff fel adnodd i fodloni anghenion y gymdeithas a busnesau, ac ar yr un pryd leihau effeithiau amgylcheddol niweidiol, gan osgoi y risg i iechyd dynol a diogelu amwynderau preswylwyr.

Mae'n rhaid i'r polisi hefyd ddatgan effaith y cynigion ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff ar amwynderau pobl leol a'r amgylchedd, gan gynnwys safleoedd dynodedig megis SoDdGAau a threftadaeth adeiledig, ac mae'n rhaid eu hasesu'n addas i benderfynu a yw cais cynllunio yn dderbyniol, ac, os nad oes modd lliniaru yr effaith niwediol ar amwynderau neu'r amgylchedd, y dylid gwrthod hawl cynllunio.

Rwyf wedi gofyn i Gymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru i gydweithio i baratoi canllawiau arfer da ar y rhyngweithio rhwng y drefn o roi caniatadau cynllunio ac amgylcheddol. Bydd y canllaw hwn yn rhoi mwy o egluder ynghylch cyfrifoldebau yr awdurdodau lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru i fonitro a chymeryd camau i ddelio â gwaith gwastraff.

6) Cynnal asesiad cynhwysfawr ar y goblygiadau iechyd tymor hir yn sgil mewnanadlu'r llwch pren a achosir gan brosesu pren gwastraff a chynnal asesiad parhaus o'r haenau llwch a geir mewn cyfleusterau prosesu pren.

Mae'r Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch wedi cynnal gwaith ymchwil ar effeithiau iechyd llwch pren a lefel y gronynnau, ac mae cyngor ar weithio gyda pren ar gael ar wefan y Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch http://www.hse.gov.uk/coshh/industry/woodworking.htm Lluniwyd canllaw hefyd gan Defra ar weithio gyda pren a chreu cynnyrch pren http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20141106091809/http:/www.defra.gov.uk/industrial-emissions/files/06092012-pgn-602.pdf

Mae'n rhaid cael trwydded amgylcheddol ar rai gweithgareddau prosesu pren i reoli allyriadau a'r effaith ar iechyd y cyhoedd. Dylai'r rheoliadau a gorfodi y mesurau rheoli i osgoi yr effaith oddi ar y safle ac i gydymffurfio â thrwyddedau gweithredu fod yn ddigon o gamau i ddiogelu iechyd. Mae amodau cynllunio hefyd yn helpu i reoli allyriadau a'r effaith ar amwynderau lleol. Mae'r prosesau hynny sy'n gweithredu o dn y trothwyon a ganiateir hefyd yn destun deddfwriaeth niwsans statudol (i archwilio a lliniaru unrhyw effaith oddi ar y safle) sy'n cael eu gorfodi gan Adrannau Iechyd yr Amgylchedd yr Awdurdod Lleol. Pan fo unigolion yn teimlo bod safle yn cael effaith ar eu hiechyd, dylent godi hyn gydag adran iechyd yr amgylchedd yr awdurdod lleol i'w archwilio.

Yn gywir

Lesley

**Lesley Griffiths AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Environment and Rural Affairs